**CIC Hywel Dda**

**Chwefror 2023**

**Rydym yn parhau i fod yn “gorff gwarchod” annibynnol y gwasanaethau GIG ar draws Ceredigion, Sir Gaerfvyrddin a Sir Benfro ond fe fydd gennym enw newydd a chyfrifoldebau newydd o 1 Ebrill 2023.**

**Fe fydd ein cyfrifoldebau newydd yn cynnwys gofal cymdeithasol a’n enw newydd fydd:**

# “Llais”

## (“Voice”)

LLAIS

Eich llais ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol | Your voice for Health and Social Care



**Fe fyddwn yn corff gwarchod annibynnol y gwasanaethau GIG a gofal cymdeithasol ar draws ein tair sir. Ein gwaith ydy gwrando ar gleifion a'r cyhoedd am eu profiadau o wasanaethau GIG a gofal cymdeithasol (da neu ddrwg). Rydym yn griw cyfeillgar a gallwch gysylltu gyda ni mewn sawl ffordd wahanol. Edrychwch ar ein tudalen gyswllt ar ddiwedd y newyddlen yma.**

**Po fwyaf o wybodaeth y gallwn ei chasglu, y mwyaf o brofiadau 'bywyd go iawn' y gallwn eu bwydo'n ôl i reolwyr gwasanaethau GIG a gofal cymdeithasol fel bod ganddyn nhw lawer gwell dealltwriaeth o'r hyn sydd yn gweithio'n dda a'r pethau sydd ddim cystal. Rydym yn awyddus i glywed oddi wrth bawb ac yn enwedig os ydych eisoes yn ddefnyddiwr gwasanaethau neu yn aelod o grŵp cefnogi lleol, yn elusen neu yn gorff trydydd sector. Yn aml iawn mae grwpiau cymunedol yn amlygu materion/gwasanaethau penodol sydd efallai yn achosi pryder ac yn effeithio ar bobl sydd angen cael mynediad i'r gwasanaethau hynny.**

**Helpwch ni os gwelwch yn dda i gasglu cymaint o wybodaeth  ag y gallwn am eich profiadau CHI. Os ydy eich profiadau yn berhtynol naill ai i wasanaethau GIG neu ofal cymdeithasol yna hoffem glywed oddi wrthych!**

# Beth sydd yn digwydd yn ardal Hywel Dda

**Mae ein Bwrdd Iechyd Lleol (Hywel Dda) yn paratoi i ddechrau ar y cam nesaf o drawsnewid ein gwasanaethau GIG.**

**O 23 Chwefror 2023 fe fyddan nhw'n gofyn i bobl lle  y dylid lleoli ysbyty mawr newydd.**

**Mae eich CIC yn gwybod bod yn rhaid i wasanaethau newid i wella, ond rydym hefyd yn glir y gall unrhyw newid ddod â risgiau ac mae llawer o bobl yn poeni.**

**Byddwn yn gwrando'n agos ar yr hyn y mae pobl yn ei ddweud fel CIC ac wrth i ni ddod yn gorff newydd Llais y Dinesydd (Llais) ym mis Ebrill.**

**Bydd y Bwrdd Iechyd yn darparu gwahanol ffyrdd y gallwch gysylltu â nhw er mwyn gofyn cwestiynau, dywedwch wrthynt am eich holl bryderon neu i wneud unrhyw awgrymiadau ynglŷn â'u cynlluniau ar gyfer ysbyty newydd.**

**Byddwn yn gwrando'n agos iawn ar yr hyn sydd gennych i'w ddweud a byddwn hefyd yn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn gwneud popeth y maen nhw'n ddweud y byddan nhw'n ei wneud er mwyn rhoi cyfle i chi siarad.**

**Mae eich barn yn bwysig iawn!**

# Beth sydd yn digwydd yn fy ardal?

**Meddygfa Solfach - Wedi i'r meddyg teulu ymddeol, mae'r feddygfa wedi dychwelyd ei gytundeb ac mae ansicrwydd bellach ynghylch dyfodol meddygfa Solfach.**

**MAE EICH CIC – yn deall y gofid y gall y bygythiad o gau meddygfeydd ei greu oddi mewn i gymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Rydym wedi gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd ac wedi mynychu digwyddiad lleol i wrando ar yr hyn oedd gan bobl leol i'w ddweud. Byddwn ni'n sicrhau bod barn y cyhoedd yn cael ei gynrychioli yn ein hymateb i'r Bwrdd Iechyd pan ddaw i wneud ei benderfyniad ar ddyfodol y feddygfa.**

**Meddygfa Y Borth -Cyhoeddodd y feddygfa yn ddiweddar y byddai gwasanaethau dermatoleg yn dod i ben a'i bod yn wynebu dyfodol anodd ynghylch recriwtio meddygon teulu.**

**MAE EICH CIC –wedi gofyn i'r Bwrdd Iechyd am eglurder ar sut y bydd pobl yn cael mynediad at wasanaethau dermatoleg yn yr ardal a beth mae'n ei wneud i gefnogi'r arfer i sicrhau ei ddyfodol o fewn y gymuned.**

**Gwasanaethau Anabledd Dysgu -Mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio gwneud newidiadau i wasanaethau sy'n cefnogi pobl sydd ag anableddau dysgu. Bydd hyn yn effeithio ar wasanaethau yn nhîm cymunedol y Bwrdd Iechyd, gofal epilepsi arbenigol, dyfodol Tŷ Bryn fel uned asesu a rhai unedau preswyl "gofal parhaus" yn Sir Benfro. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn edrych ar ddatblygu tîm llesiant ac ymyrraeth gynnar.**

**Bydd EICH CIC -yn cymryd rhan mewn digwyddiadau ymgysylltu ac yn gwneud ein hargymhellion i'r Bwrdd Iechyd ar sail yr hyn y mae pobl wedi ei ddweud yn ystod y cyfnod hwn.**

Ymgynghoriad Cyhoeddus ar gyfer safle Ysbyty Newydd - Bydd y Bwrdd Iechyd yn dechrau ymgynghoriad cyhoeddus mawr ar safle ei ysbyty newydd yn yr wythnosau nesaf. Mae hwn yn fater pwysig fydd yn effeithio ar nifer o wasanaethau GIG y Bwrdd Iechyd yn y dyfodol.


Bydd EICH CIC -yn sicrhau bod y cyhoedd yn cael cyfle i ddweud eu dweud yn yr ymgynghoriad cymhleth hwn a bod gwybodaeth a deunyddiau yn ddarllenadwy ac yn glir. Fel arfer, byddwn yn awyddus i ddeall barn pobl wrth i'r ymgynghoriad fynd yn ei flaen.

**Darllenwch ein hadroddiad ar 'Babanod a genedigaethau yn Hywel Dda"**

Mae ein holl adroddiadau yn cynnwys manylion am eich profiadau go iawn ac maent bob amser ar gael i'w darllen ar ein gwefan. Rydym hefyd yn cynnwys yr ymateb a gawn yn ôl gan y Bwrdd Iechyd lleol i bawb ei ddarllen. Mae ein hadroddiad ar Fabanod a genedigaethau yn Hywel Dda yn ogystal â'n holl adroddiadau eraill ar gael yma:

**www.hywelddachc.wales**





Mae ein hadroddiad ar "Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)" ar gael i'w ddarllen. Beth rydych chi wedi ei ddweud wrthym.....



www.hywelddachc.wales



Fe fydd ein  hadroddiad ar Ofal Lliniarol ar gael i'w ddarllen yn fuan.

Beth rydych chi wedi ei





## Diolch!

I bob un ohonoch sydd wedi rhannu eich profiadau gyda ni - diolch yn fawr iawn.

Wrth i ni ddechrau Ebrill 2023 gyda enw newydd sbon "LLAIS" a'r cyfrifoldeb ychwanegol o ofal cymdeithasol bydd yn bwysicach fyth i ni gynrychioli eich barn.

Byddem yn eich annog i ddweud wrth eich teulu a'ch ffrindiau amdanom.

Helpwch ni i'ch helpu chi!

# Sut i gysylltu gyda ni:

| | | |
|---|---|---|
| | Ysgrifennu atom: | Ytsafell 5, Llawr 1af,<br>Ty Myrddin,<br>Heol yr Hen Orsaf,<br>Caerfyrddin,<br>SA31 1LP |
| | Ffôn: | 01646 697610 |
| | E-bost | hyweldda@waleschc.org.uk |
| | Ein gwefan: | www.hyweldddachc.wales |
| | Twitter: | @hywelddachc |
| | | |